

# Atodiad 3 – Diweddariad Interim y prosiect Cronfa Ynni Glan

Ar gymeradwyo Achos Fusnes Llawn y Gronfa Ynni Lleol ym Mai 2025, gofynnodd yr Bwrdd Uchelgais am ddiweddariad cynnydd o fewn chwe mis. Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r cynnydd ers i'r gronfa gael ei lansio yn Gorffennaf 2025.

- Lansiwyd y Gronfa Ynni Lleol yn swyddogol ar y 10fed o Orffennaf 2025, gyda digwyddiad llwyddiannus gyda dros 90 o bobl yn bresennol.
- Ers lansio, cyflwynwyd 44 o ddatganiadau diddordeb ac mae 5 cais llawn wedi ei cyflwyno ac yn cael ei adolygu gyda phapurau buddsoddi yn cael eu paratoi. Ystyriwyd bod un cais yn anghymwys oherwydd and oedd yn bodloni meini prawf y gronfa. Mae siart 1 a 2 isod yn dangos y datganiadau diddordeb a'r prif fath o dechnoleg a dderbyniwyd hyd yn hyn. Rydym wedi cael sawl sgwrs ynglŷn a'r is-gronfa wrth gefn gyda thrafodaethau parhaus ynghylch Uchelgais Gogledd Cymru yn cymryd ecwiti mewn prosiect cynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- Mae ymgysylltiad cryf wedi parhau gan Uchelgais Gogledd Cymru, UMi a WCVA. Mae dros 70 o ymgysylltiadau wedi'u cynnal ac maent yn amrywio o gyfarfodydd 1:1, mynychu cynadleddau a chyflwyniadau, sioeau sirol, digwyddiadau cyllid, ffeiriau cyllido awdurdodau lleol. Mae'r rhwydweithiau presennol wedi cael eu trosoli gan gynnwys CBI Cymru, Siambr Fusnes, Diwydiant Sero Net Cymru, Fforwm Datgarboneiddio Glannau Dyfrdwy, Cynghrair Ynni ar y Môr a Busnes Cymru, ond heb fod yn gyfyngedig i. Yn ogystal, mae podlediad wedi'i recordio a'i rannu gydag erthyglau ategol i gefnogi ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol.
- Bu dechrau cadarnhaol ar gyfer y gronfa ac rydym yn anelu at ryddhau cyllid cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Rydym wedi derbyn adborth gan fusnesau a broceriaid ynglŷn â'r amgylchedd economaidd heriol a'r amharodrwydd i gymryd risg ar ddyled fasnachol ar hyn o bryd. Rydym yn ymgysylltu â busnesau i gefnogi ac addysgu am y cynnig a'r cyfleoedd o gymryd cyllid i gefnogi eu prosiectau a'u gweithrediadau datgarboneiddio.
- Yn unol â'r achos busnes cymeradwy, byddwn yn parhau i wrando ar y farchnad ac adolygu ein Strategaeth Fuddsoddi i ymateb i anghenion y farchnad gyda'r bwriad o gwblhau adolygiad llawn cyntaf ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.


Cwblhau Datganiadau o Ddiddordeb (EOIs) yn ôl Sir
12
10
8
6
4
2
0
Ynys Môn
Conwy
Ddinbych
Sir y Fflint
Gwynedd
Wrecsam
Cronfa Gwirfoddol
Cronfa Preifat
Cronfa wrth Gefn


Datganiadau o Ddiddordeb (EOIs) wrth Technoleg Prif
Cyfanswm
Dadcarbonu Cerbydau (CT yn cynnwys)
Dadcarbonu Peiriannau a Pheirianwaith
CCUS
Storfa Batri/BESS
Pwmp Gwres
Llanw
Hydro
Solar
0
5
10
15
20
25
30
Cronfa Gwirfoddol
Cronfa Preifat
Cronfa wrth Gefn